

## Eisteddfod yr Urdd – 2018

### Cystadleuaeth Prif Seremoni Defod Y Coroni Bl.10 a dan 25 oed (395)

---

BEIRNIADAETH CATRIN BEARD A LLEUCU ROBERTS

*Rhaid i ni nodi'n gyffredinol ein bod wedi ein calonogi'n fawr iawn gan safon yr iaith yn y gystadleuaeth hon. Iaith rywiog, gywir yw'r deunydd sylfaenol sy'n rhaid i bob awdur ei gael er mwyn gallu adeiladu ei stori, a brafyw gallu dweud fod pob un o'r ymgeiswyr eleni yn meddu ar adnoddau ieithyddol cadarn.*

*Smot*

Stori am ddwy chwaer yw hon, ac un ohonynt yn mynd yn ddall, er mai hi fel yr hynaf a arferai helpu ei chwaer fach yn y tywyllwch pan oedden nhw'n blant. Mae'n syniad bach effeithiol, ac mae'n stori ddigon annwyl am ymdrech pobl i ddygymod â'r trychinebau mwyaf. Efallai y gallai'r mynegiant fod yn fwy cynnil ar adegau, a gallai strwythur y stori, gyda'r symud rhwng cymeriadau, fod ychydig bach yn gliriach. Mae peryg weithiau i fynd yn rhy bell – ac ildio i felodrama – a thrwy barhau i ysgrifennu a magu profiad, fe ddaw'r awdur i wybod ble y dylid gosod y terfynau. Ond roedd cryn anwyldeb yn perthyn i'r ymgais hon.